

Dyfodol Gwyrddach Gyda'n Gilydd.

Llwybr a rennir tuag at gymunedau
cynaliadwy a dyfodol gwydn.



Trivallis.

Yn Trivallis, mae cynaliadwyedd yn golygu mwy na lleihau carbon yn unig. Mae'n golygu darparu cartrefi cynnes a fforddiadwy, cymunedau sy'n ffynnu, a dyfodol sy'n deg, yn gynhwysol ac sy'n gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Mae ein Cynllun Cynaliadwyedd (2025–2029) yn gosod y cyfeiriad ar gyfer cyrraedd Sero Net erbyn 2050, gwella lles tenantiaid, ac amddiffyn yr amgylchedd.

Ein Gweledigaeth

Caiff ein gweledigaeth ei llywio gan anghenion ein cymunedau a'r lleoedd unigryw y maent yn byw ynddynt, gan sicrhau bod ein taith yn adlewyrchu'r gymuned yn ogystal â'r amgylchedd.

- Cartrefi Iach: Cartrefi effeithlon o ran ynni, carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd sy'n gwella cysur a fforddiadwyedd.
- Cymunedau sy'n Ffynnu: Cymdogaethau mwy diogel ac iach gyda gwell mynediad at fannau gwyrdd.
- Arweinyddiaeth Amgylcheddol: Nodau cynaliadwyedd uchelgeisiol wedi'u gwreiddio ym mhob penderfyniad.
- Gwerth Economaidd a Chymdeithasol: Costau is i denantiaid a mwy o wydwnch sefydliadol.

Pam Mae'n Bwysig

- Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar gostau ynni, ar risg llifogydd ac ar ein hiechyd.
- Mae gyrwyr rheoleiddio megis SATC 2023 a thargedau Net Sero yn gofyn am weithredu.
- Mae buddsoddiad rhagweithiol yn lleihau costau hirdymor ac yn rhoi hwb i foddhad tenantiaid.
- Yn datgloi arloesedd, cyllid a grymuso'r gymuned.

Sut y Byddwn yn Cyflawni Hyn

- Cydweithio â thenantiaid, cydweithwyr a phartneriaid.
- Penderfyniadau wedi'u llywio gan ddata i dargedu buddsoddiad yn effeithiol.
- Dull integredig sy'n ymgorffori cynaliadwyedd ar draws ein holl weithrediadau.
- Atebolrwydd clir gan ddefnyddio'r Safon Adrodd ar Gynaliadwyedd.



Trivallis.

Chwe Thema Allweddol

Mae ein chwe thema allweddol, ein camau gweithredu a'n canlyniadau yn gosod y cwrs ar gyfer cyflawni ein gweledigaeth a mesur y newid y mae'n ei greu.

1. Mannau Gwyrdd a Bioamrywiaeth

Gwella a chynnal mannau gwyrdd, adfer cynefinoedd naturiol, ac integreiddio defnydd cymunedol..

Mae **camau gweithredu** yn cynnwys creu mannau awyr agored hygrych, plannu rhywogaethau sy'n gyfeillgar i beillwyr, a gwella bioamrywiaeth mewn ffordd sy'n cyd-fynd â threftadaeth leol.

Mae **canlyniadau** yn cynnwys cymunedau iachach, gwell ansawdd aer, a mannau deniadol a diogel sy'n cefnogi ffordd egniïol o fyw.

2. Gwrthsefyll yr Hinsawdd a Risg Llifogydd

Paratoi cartrefi a chymunedau i wrthsefyll tywydd eithafol ac adeiladu gwydnwch parhaol.

Mae **camau gweithredu** yn cynnwys creu mannau awyr agored hygrych, plannu rhywogaethau sy'n gyfeillgar i beillwyr, a gwella bioamrywiaeth mewn ffordd sy'n cyd-fynd â threftadaeth leol.

Mae **canlyniadau** yn cynnwys cymunedau iachach, gwell ansawdd aer, a mannau deniadol a diogel sy'n cefnogi ffordd egniïol o fyw.

3. Effeithlonrwydd Ynni a Lleihau Carbon

Darparu cartrefi a swyddfeydd cynhesach, carbon isel tra'n lleihau costau ynni.

Mae **camau gweithredu** yn cynnwys gwella graddfeydd EPC, gosod gwres carbon isel a thechnolegau adnewyddadwy, systemau ynni clyfar, a manteisio ar gyllid allanol. Mae **canlyniadau** yn cynnwys biliau is, allyriadau carbon is, a chynnydd tuag at Sero Net 2050.

4. Gwastraff a'r Economi Gylchol

Lleihau gwastraff a hyrwyddo defnydd cyfrifol o ddeunyddiau wrth ddarparu gwasanaethau a byw'n gynaliadwy o ddydd i ddydd.

Mae **camau gweithredu** yn cynnwys ehangu ailgylchu, rheoli gwastraff cyfrifol, cyrchu deunyddiau cynaliadwy yn lleol, ac addysgu tenantiaid ar sut i leihau gwastraff. Mae **canlyniadau** yn cynnwys cymdogaethau glanach, llai o dirlenwi, a defnydd mwy cyfrifol o adnoddau.



5. Trafnidiaeth Gynaliadwy

Annog teithio allyriadau isel a gwella cysylltedd i denantiaid a staff.

Mae **camau gweithredu** yn cynnwys ehangu fflydoedd cerbydau trydan, gwella mannau storio beiciau, a hyrwyddo teithio egniol neu deithio a rennir.

Mae **canlyniadau** yn cynnwys allyriadau teithio is, gwell hygrychedd, a dewisiadau teithio iachach.



6. Effeithlonrwydd Dŵr

Lleihau'r defnydd o ddŵr a gwella rheoli adnoddau.

Mae **camau gweithredu** yn cynnwys defnyddio gosodiadau arbed dŵr, mesur defnydd i ganfod gollyngiadau, a darparu arweiniad i denantiaid ar ddefnydd effeithlon.

Mae **canlyniadau** yn cynnwys biliau dŵr is, llai o effaith ar yr amgylchedd, a mwy o wydnwch os bydd prinder dŵr yn y dyfodol.

Ein Hymrwymiad

Mae pawb yn gyfrifol am gynaliadwyedd. Drwy weithredu nawr, rydym yn amddiffyn ein cartrefi, ein cymunedau, a chenedlaethau'r dyfodol. Gyda'n gilydd, gallwn greu lleoedd gwyrddach, iachach a mwy cynhwysol i fyw ynddynt.

Dyma gipolwg ar ein dull gweithredu. Am ragor o wybodaeth, neu i drafod sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i gyflawni'r nodau hyn, cysylltwch â ni yn

sustainabilitymatters@trivallis.co.uk



Trivallis.